

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 9 Hydref 2017 am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Keiran Allsopp-Robson, Gavin Harris, Anne Roberts a Dave Snape.

28. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Jim Bryan ac Emrys Wynne.

29. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

30. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod y cofnodion a gynhaliwyd ar 11 Medi 2017 yn gywir.*

31. MATERION YN CODI

Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda chwmni Moseley - Paentwyr ac Addurnwyr i gael diweddariad ynghylch dyddiad arfaethedig ailbaentio'r parc sgrialu, a'r bwriad yw trefnu'r gwaith ar gyfer yr wythnos yn dechrau 16 Hydref, os yw'r tywydd yn ffafriol.

Gofynnodd y Cadeirydd am anfon llythyr i ddiolch i Bleddyn Jones, Y Ganolfan, am ddyfrio'r basgedi crog y tymor hwn, nawr bod y blodau wedi eu clirio.

32. DIWEDDARIAD YNGHYLCH Ffordd GLASDIR

Gan fod y Cynghorwyr Jim Bryan ac Emrys Wynne wedi cyflwyno ymddiheuriadau am absenoldeb

PENDERFYNWYD: *gohirio'r eitem hon.*

33. ADOLYGU MANNAU CHWARAE RHUTHUN

Roedd y Cyngorydd Gavin Harris wedi cynhyrchu map yn cynnwys ffotograffau'r manau chwarae, yn dangos bod y ddarpariaeth wedi'i gosod yn dda. Hefyd crybwyllodd bod nifer o seddi roedd wedi eu gweld angen eu cynnal ac awgrymodd y byddai'n syniad da sefydlu criw Tref Taclus a allai dargedu ychydig o seddau ar y tro i'w ailbaentio a'u staenio eto i wneud iddynt edrych yn ddeniadol. Hefyd awgrymodd ymchwilio ymhellach i osod offer byw'n iach ar hyd llwybr Ffordd yr Orsaf fel rhywbeth ychwanegol i oedolion.

PENDERFYNWYD: *bod yr aelodau'n sefydlu criw i gynnal a chadw'r seddau a bod y Clerc yn anfon rhestr o'r rhai dan berchnogaeth Cyngor Tref Rhuthun at y Cyngorydd Harris.*

34. PRISIAU COED NADOLIG 2017

Derbyniwyd pris gan Dr. Peter Spencer, Gwasanaethau Coed Cymru, am £1,222.00 ar gyfer un goeden Nadolig 23 troedfedd ar y sgwâr a choed 15 troedfedd yn Erw Goch, Cornel yr Angor, Stryd Mwrog a Ffordd Dinbych. Nid oedd y cwmni arall wedi ymateb.

PENDERFYNWYD: *derbyn y pris am ddarparu, tynnu ymaith a gwaredu'r coed Nadolig gan Wasanaethau Coed Cymru.*

35. PRISIAU GOLEUADAU NADOLIG AR Y COED NADOLIG 2017

Esboniodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda dau gwmni hyd yma. Roedd Dolben Electrics wedi penderfynu peidio â chynnig pris ac ni chafwyd unrhyw ymateb gan Aerial Electrics hyd yma. Awgrymwyd y dylai'r Clerc gysylltu gyda Gwasanaethau Trydanol D C Jones hefyd i ofyn am bris.

PENDERFYNWYD: *trafod hyn ymhellach yn y cyfarfod nesaf.*

36. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 13 Tachwedd 2017 am 7:30pm.*